**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o offerynnau statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") eu gosod gerbron Dau Dŷ'r Senedd ar 17 Rhagfyr 2018. Mae'r Rheoliadau i'w gweld yma:

https://beta.parliament.uk/work-packages/bQ6Qmvky

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i Amcan**

3. Amcan yr OS yw mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, ynghyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, dan bwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2019.

4. Wrth fynd i'r afael â'r methiannau a'r gwendidau eraill, mae'r OS yn diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol a ganlyn:
   - Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989
   - Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
   - Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003

**Darpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

5. Dyma'r diwygiadau y mae Rheoliadau 2019 yn eu gwneud i'r ddeddfwriaeth sylfaenol uchod:

Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989

Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003

6. Mae'r newidiadau a bennir ym mharagraff 5 yn ymwneud â phwnc sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a allai fod yn destun Bil gan y Cynulliad Cenedlaethol.

7. Mae Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar unrhyw bynciau ac eithrio'r rheini sydd wedi'u cadw'n ôl yn benodol ar gyfer Senedd y DU yn Atodlen 7A i'r Ddeddf. Mae

gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â gwastraff a'r amgylchedd.

**Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

8. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi sy'n gysylltiedig â'r cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr i gywiro'r cyfeiriadau dan sylw yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i'r OS hwn yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws Cymru a Lloegr, sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Lesley Griffiths AC**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
19 Rhagfyr 2018